

# Cyngor Cymuned Llanycil.

## Cyfarfod Blynyddol.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 9fed 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Geraint Jones (cadeirydd), Gwynedd Jones, Arwel Davies, Huw Charles, Jean Roberts, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams a Geraint Davies. Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb awdurdodedig i Gwynfryn Williams am 6 mis oherwydd salwch.

Roedd amgylchiadau'r pandemig Covid 19 wedi rhwystro, ar gyngor Un Llais Cymru, rhag cynnal y cyfarfod ym mis Mai yn ôl yr arfer. Nodwyd nad oedd y Cyngor wedi bod yn ymwybodol tan fis Chwefror o'r cyfarwyddwyd i gynnal y cyfarfod blynyddol cyn diwedd Rhagfyr 2020 felly roeddynt wedi trefnu i'w gynnal cyn gynt ac roedd hyn wedi dod i'r amlwg. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

### i) Cadarnhau'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.

Cadarnhawyd fod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn parhau yn eu swyddi am y flwyddyn 2020-21.

### ii) Cynrychiolwyr ar bwyllograu.

Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies a Rhys Richards.

### iii) Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

### iv) Gydabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2020/21.

Cadarnhaodd y clerc eu bod eisoes wedi derbyn llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

### vi) Adolygu Asedau

Adolygwyd y rhestr asedau a adroddodd y clerc fod yr asedau wedi cael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn ac roedd y gwaith cynnal a chadw brys i loches bws Rhydychaf wedi cael ei wneud.

### vii) Adolygu Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.

Arwyddwyd: .....

Dyddiad: .....